



**AMODAU CYMERADWYO  
MANDADOL AR GYFER  
TRINIAETHAU ARBENNIG  
(MANGREOEDD A CHERBYDAU)**

**MANDATORY APPROVAL  
CONDITIONS FOR SPECIAL  
PROCEDURES  
(PREMISES & VEHICLES)**

*Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o  
ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024*

*Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017*

*The Special Procedures Approved Premises and Vehicles  
(Wales) Regulations 2024*

*The Public Health (Wales) Act 2017*

|     | <b>AMODAU CYMERADWYO MANDADOL:<br/>AMTYSGRIF GYMERADWYO<br/>ATODLEN 3, RHEOLIAD 11 (2)</b>  | <b>MANDATOR APPROVAL CONDITIONS:<br/>APPROVAL CERTIFICATE<br/>SCHEDULE 3, REGULATION 11 (2)</b>  |
|-----|---|--|
|     | <b>PARAGRAFF 1 - CYFFREDINOL</b>  | <b>PARAGRAPH 1 - GENERAL</b>   |
| (1) | Ni chaiff deiliad y dystysgrif ganiatáu i unrhyw ddeiliaid trwydded roi triniaeth arbennig pan fo'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, neu unrhyw ran ohoni neu ohono, yn peri, neu'n debygol o beri, risg sylweddol o niwed i iechyd dynol.   | The certificate holder must not permit any licence holders to perform a special procedure where the approved premises or vehicle, or any part thereof, presents, or is likely to present, a significant risk of harm to human health.  |
| (2) | Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd yn cael ei defnyddio neu ei ddefnyddio yn y fath fodd sy'n lleihau'r risg o niwed i iechyd dynol.  | The certificate holder must ensure that the approved premises or vehicle is used in such a way that minimises the risk of harm to human health.  |
| (3) | Ni chaiff deiliad y dystysgrif beryglu diogelwch, iechyd na llesiant cleientiaid, deiliaid trwydded, staff nac aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio ei fangre neu ei gerbyd.  | The certificate holder must not compromise the safety, health or well-being of clients, licence holders, staff or members of the public using their premises or vehicle.   |
| (4) | Rhaid i ddeiliad y dystysgrif gadw a chynnal cofnod cyfredol o'r holl ddeiliaid trwydded sy'n gweithredu yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, gan gynnwys pob triniaeth arbennig y mae deiliad y drwydded wedi ei drwyddedu i'w rhoi.   | The certificate holder must keep and maintain an up-to-date record of all licence holders operating from the approved premises or vehicle, including each special procedure the licence holder is licensed to perform.   |
| (5) | Ni chaiff deiliad y dystysgrif ganiatáu i ddeiliaid trwydded weithredu yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd ond pan fo'r fangre neu'r cerbyd wedi ei nodi yn ei drwydded triniaeth arbennig.   | The certificate holder must only permit licence holders to operate from the approved premises or vehicle where the premises or vehicle are identified in their special procedure licence.  |
| (6) | Ni chaniateir mynd y tu hwnt i uchafswm nifer y gweithfannau a gymeradwywyd i'w defnyddio yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd ac sydd wedi ei nodi ar y dystysgrif gymeradwyo.  | The maximum number of workstations approved for use at the approved premises or vehicle and stated on the approval certificate must not be exceeded.   |
| (7) | Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod yr holl ddeiliaid trwydded sy'n gweithredu yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd yn gweithredu mewn ffordd nad yw'n mynd yn groes i'r drwydded triniaeth arbennig a ddyroddwyd mewn perthynas â'r triniaethau arbennig a nodir yn y drwydded triniaeth arbennig (gan gynnwys yr amodau trwyddedu mandadol). | The certificate holder must ensure that all licence holders operating from the approved premises or vehicle act in a way that does not contradict the special procedure licence issued in relation to the special procedures identified in the special procedure licence (including the mandatory licensing conditions). |
|     | <b>PARAGRAFF 2 - MATERION SY'N YMWNEUD<br/>Â'R DYSTYSGRIF GYMERADWYO</b>  | <b>PARAGRAPH 2 - MATTERS RELATING TO<br/>THE APPROVAL CERTIFICATE</b>  |
| (1) | Rhaid i gopi o'r amodau cymeradwyo mandadol cymwys fod ar gael yn rhwydd i'w arolygu ar gais gan swyddog awdurdodedig neu gan gleient.  | A copy of the applicable mandatory approval conditions must be readily available for inspection upon request by an authorised officer or a client.   |
| (2) | Ni chaniateir addasu'r dystysgrif gymeradwyo mewn unrhyw ffordd a rhaid iddi barhau i fod yn ddarllenadwy.  | The approval certificate must not be altered in any way and must remain legible.   |
| (3) | Mewn achos pan fo'r dystysgrif gymeradwyo wedi mynd ar goll, wedi cael ei dwyn neu wedi cael ei difrodi, rhaid i ddeiliad y dystysgrif wneud cais, o fewn cyfnod rhesymol, i gael un newydd yn ei lle oddi wrth yr awdurdod lleol sy'n dyroddi.   | In the event of the approval certificate becoming mislaid, stolen or damaged, the certificate holder must apply, within a reasonable period, to obtain a replacement from the issuing local authority.   |

|   |  |   |
|---|--|---|
| (4)   | Pan ddaw'r dystysgrif gymeradwyo i ben, rhaid dychwelyd y dystysgrif sydd wedi dod i ben i'r awdurdod lleol sy'n dyroddi yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir gan yr awdurdod hwnnw.   | On the expiry of the approval certificate, the expired certificate must be returned to the issuing local authority in accordance with the instructions provided by that authority.  |
| (5)   | Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod ganddo sicrwydd yswiriant drwy'r amser yn ystod cyfnod y dystysgrif gymeradwyo. Rhaid i dystiolaeth o sicrwydd yswiriant dilys fod ar gael yn rhwydd i'w harolygu gan unrhyw swyddog awdurdodedig.   | The certificate holder must have in place insurance cover at all times during the approval certificate period. Evidence of valid insurance cover must be readily available for inspection by any authorised officer.  |
| <b>PARAGRAFF 3 - MATERION SY'N YMWNEUD AG ARDDANGOS HYSBYSIADAU A MYNEDIAD CYFYNGEDIG</b> |  | <b>PARAGRAPH 3 - MATTERS RELATING TO DISPLAYING OF NOTICES AND RESTRICTED ACCESS</b>  |
| (1)   | Rhaid i'r dystysgrif gymeradwyo gael ei harddangos ym mynedfa cwsmeriaid y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd neu gerllaw iddi, neu yn y rhan ohoni neu ohono sy'n destun y dystysgrif gymeradwyo, ac mewn safle sy'n galluogi cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd i'w darllen yn hawdd.  | The approval certificate must be displayed at or near the customer entrance of the approved premises or vehicle, or part thereof which is the subject of the approval certificate, and in a position that enables it to be easily read by clients and members of the public.  |
| (2)   | Rhaid i ddeiliad y dystysgrif arddangos hysbysiad sy'n datgan na fydd triniaethau arbennig yn cael eu rhoi i unrhyw berson sy'n feddw neu yr ymddengys ei fod yn feddw, pa un ai yn rhinwedd diod, cyffuriau neu unrhyw fodd arall. Rhaid i'r hysbysiad hwn fod mewn lleoliad sy'n galluogi cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd i'w darllen yn hawdd.   | The certificate holder must display a notice stating that special procedures will not be performed on any person who is or appears to be intoxicated, whether by virtue of drink, drugs or other means. This notice must be in a location that enables it to be easily read by clients and members of the public.   |
| (3)   | Ni chaiff deiliad y dystysgrif ganiatáu i anifeiliaid ddod i mewn i'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd ac eithrio cŵn cymorth cofrestredig sy'n dod gyda chleient.   | The certificate holder must not allow animals into the approved premises or vehicle other than registered assistance dogs accompanying a client.  |
| (4)   | Rhaid arddangos yn glir hysbysiad sy'n cynnwys cyfarwyddiadau golchi dwylo wrth bob basn golchi dwylo yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.   | A notice containing hand washing instructions must be clearly displayed at every wash hand basin within the approved premises or vehicle.   |
| (5)   | Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod deiliad y drwydded yn glynu wrth y rhwymedigaeth sydd arno na chaiff ond caniatáu i gleient ddod ag unigolyn arall gydag ef os nad yw presenoldeb yr unigolyn arall hwnnw yn ystod y driniaeth arbennig yn peri risg uwch o haint.   | The certificate holder must ensure that the licence holder adheres to their obligation to only permit a client to be accompanied by an individual if their presence during the special procedure does not present an increased risk of infection.   |
| (6)   | Rhaid cyfyngu ar fynediad i'r man gwaith triniaethau arbennig i neb ond deiliad y drwydded, deiliad y dystysgrif, personau sydd wedi eu hawdurdodi gan ddeiliad y dystysgrif neu ddeiliad y drwydded (sy'n cynnwys y cleient ac unigolyn sy'n dod gyda'r cleient) a chŵn cymorth cofrestredig (os ydynt yn gymwys). Dim ond rhan o'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd y caniateir i unrhyw unigolion eraill gael mynediad iddi pan na fo hynny'n peri risg uwch o haint. | Access to the special procedures work area must be restricted to the licence holder, the certificate holder, persons authorised by the certificate holder or licence holder (which includes the client and an individual accompanying the client) and registered assistance dogs (if applicable). Any other individuals will only be permitted to access a part of the approved premises or vehicle where it does not present an increased risk of infection. |
| (7)   | Rhaid nodi'n glir y manau y gwaherddir mynediad y cyhoedd iddynt yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd a rhaid cyfyngu ar fynediad aelodau o'r cyhoedd i'r canlynol—<br>(a) gweithfannau (oni bai eu bod wedi eu hawdurdodi gan ddeiliad y dystysgrif neu ddeiliad y drwydded (i gynnwys cleient ac unigolyn sy'n dod gyda chleient)),<br>(b) manau ac ystafelloedd lle y mae sbwriel sy'n deillio o'r driniaeth arbennig yn cael ei gasglu a'i storio, ac               | Areas within the approved premises or vehicle where public access is prohibited must be clearly identified and members of the public must be restricted from accessing—<br>(a) workstations (unless they are authorised by the certificate holder or licence holder (to include a client and an individual accompanying a client)),<br>(b) areas and rooms where refuse arising from the special procedure is collected and stored, and                       |

|      |  |  |
|------|--|--|
|      | (c) unrhyw fannau lle y mae cyfarpar a chynhyrchion sy'n ymwneud â thriniaethau arbennig yn cael ei storio neu eu storio.  | (c) any areas where equipment and products relating to special procedures are stored.  |
|      | <b>PARAGRAFF 4 - DYLUNIAD, STRWYTHUR A'R AMGYLCHEDD FFISEGOL</b>   | <b>PARAGRAPH 4 - DESIGN, STRUCTURE AND PHYSICAL ENVIRONMENT</b>  |
| (1)  | Ni chaniateir rhoi triniaeth arbennig ond mewn gweithfan yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.  | A special procedure must only be performed at a workstation within the approved premises or vehicle.   |
| (2)  | Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod dyluniad, maint, strwythur a chyflwr y fangre neu'r cerbyd yn galluogi gwaith glanhau a diheintio effeithiol.  | The certificate holder must ensure that the design, size, structure and repair of the premises or vehicle enables effective cleaning and disinfection.   |
| (3)  | Rhaid i'r holl arwynebau, gosodiadau, ffitiadau a chyfleusterau mewnol yn y man gwaith triniaethau arbennig fod o'r fath ddeunydd a dyluniad, a chael eu cadw mewn cyflwr da, i alluogi gwaith glanhau a diheintio effeithiol pan fo halogiad gan waed neu hylifau corfforol yn debygol.                 | All internal surfaces, fixtures, fittings and facilities within the special procedures work area must be of such material and design, and be kept in good order and repair to enable effective cleaning and disinfection where contamination from blood or bodily fluids is likely.                |
| (4)  | Pan ddarperir man aros, rhaid ei wahanu'n ffisegol oddi wrth y man gwaith triniaethau arbennig.  | Where a waiting area is provided, it must be physically segregated from the special procedures work area.  |
| (5)  | Rhaid bod gan y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd gyfleusterau toiled y gall deiliaid trwydded, staff a chleientiaid eu cyrraedd a'u defnyddio'n rhwydd.  | The approved premises or vehicle must have ready access to toilet facilities for use by licence holders, staff and clients.  |
| (6)  | Pan ddarperir cyfleusterau toiled yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, rhaid iddynt gael eu hawyru a chynnwys basn golchi dwylo sydd â chyflenwad digonol o ddŵr rhedegog (poeth ac oer neu gymysg), sebon hylif a thywelion papur wedi eu storio mewn cyflenwr caeedig.                             | Where toilet facilities are provided at the approved premises or vehicle, they must be ventilated and contain a wash hand basin with an adequate supply of running water (hot and cold or mixed), liquid soap and paper towels stored in an enclosed dispenser.                                    |
| (7)  | Rhaid i'r weithfan fod â digon o le er mwyn galluogi rhoi'r driniaeth arbennig yn ddiogel ac yn hylan.   | The workstation must have sufficient space to enable the safe and hygienic performance of the special procedure.   |
| (8)  | Rhaid i'r man gwaith triniaethau arbennig gynnwys yr holl weithfannau a'r holl gyfleusterau ar gyfer storio'n lân gyfarpar, offerynnau a chynhyrchion a ddefnyddir ar gyfer triniaethau arbennig, neu mewn cysylltiad â hwy, er mwyn atal y risg o halogiad.   | The special procedures work area must accommodate all workstations and facilities for the clean storage of equipment, instruments and products used for or in conjunction with special procedures to prevent the risk of contamination.  |
| (9)  | Rhaid darparu cyfleusterau addas ar gyfer storio'n hylan gyfarpar, offerynnau a chynhyrchion a ddefnyddir ar gyfer triniaethau arbennig, neu mewn cysylltiad â hwy, er mwyn osgoi'r risg o halogiad.   | Suitable facilities must be provided for the hygienic storage of equipment, instruments and products used for or in conjunction with special procedures to avoid the risk of contamination.  |
| (10) | Rhaid darparu trefniadau addas ar gyfer storio, rheoli ac adalw cofnodion cleientiaid yn ddiogel, sy'n ymwneud â'r triniaethau arbennig sy'n cael eu cynnig a'u rhoi.  | Suitable arrangements must be provided for the secure storage, management and retrieval of clients' records relating to the special procedures that are offered and performed.   |
| (11) | Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod pecyn cymorth cyntaf sydd wedi ei stocio'n addas ac sydd ar gael yn rhwydd yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd sy'n diwallu anghenion cymorth cyntaf y triniaethau arbennig a roddir yno.  | The certificate holder must ensure that there is a suitably stocked, readily accessible first aid kit at the approved premises or vehicle which meets the first aid needs of the special procedures being performed there.   |
| (12) | Rhaid i'r goleuadau fod yn addas ac yn ddigonol i sicrhau bod y fangre neu'r cerbyd yn gweithredu'n ddiogel ac i hwyluso gwaith glanhau a diheintio effeithiol. Pan fo angen, rhaid darparu goleuadau lleol ym mhob gweithfan i sicrhau bod y driniaeth arbennig yn cael ei rhoi yn ddiogel ac yn hylan. | Lighting must be suitable and sufficient to ensure the safe operation of the premises or vehicle and to facilitate effective cleaning and disinfection. Where necessary, local lighting must be provided at each workstation to ensure the safe and hygienic performance of the special procedure. |
| (13) | Rhaid darparu awyriad digonol i'r man gwaith triniaethau arbennig yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.   | Adequate ventilation must be provided to the special procedures work area within the approved premises or vehicle.   |

|      |   |  |
|------|---|--|
| (14) | Rhaid darparu nifer addas o fasnau golchi dwylo sydd ar gael yn rhydd ym mhob man gwaith triniaethau arbennig. Rhaid i'r basnau golchi dwylo weithio'n iawn a bod mewn cyflwr da.   | A suitable number of readily accessible wash hand basins must be provided in each special procedures work area. The wash hand basins must be in good working order and repair.   |
| (15) | Rhaid i'r holl fasnau golchi dwylo mewn man gwaith triniaethau arbennig gynnwys cyflenwad digonol o ddŵr rhedegog (poeth ac oer neu gymysg), sebon hylif a thywelion papur wedi eu storio mewn cyflenwr caeedig sy'n agos i'r basn golchi dwylo.  | All wash hand basins in a special procedures work area must include an adequate supply of running water (hot and cold or mixed), liquid soap and paper towels stored in an enclosed dispenser in close proximity to the wash hand basin.   |
| (16) | Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod yr holl fasnau golchi dwylo at ddefnydd y deiliad trwydded yn cael eu stocio'n llawn â sebon hylif a thywelion papur.   | The certificate holder must ensure that all wash hand basins for the licence holders' use are fully stocked with liquid soap and paper towels.   |
| (17) | Ni chaniateir defnyddio basnau golchi dwylo ond at ddibenion golchi dwylo ac elinau.  | Wash hand basins must only be used for the purposes of washing hands and forearms.   |
|      | <b>PARAGRAFF 5 - DIHALOGI, GLANHAU, DIHEINTIO A STERILEIDDO</b>   | <b>PARAGRAPH 5 - DECONTAMINATION, CLEANING, DISINFECTION AND STERILISATION</b>   |
| (1)  | Rhaid cadw pob rhan o'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd yn lân ac yn daclus.   | All parts of the approved premises or vehicle must be kept clean and tidy.   |
| (2)  | Rhaid gweithredu amserlen lanhau sy'n addas ac yn ddigonol ar gyfer y fangre, y gosodiadau, y ffitiadau, y dodrefn, y cyfarpar a'r offerynnau.  | A suitable and sufficient cleaning schedule for the premises, fixtures, fittings, furniture, equipment and instruments must be in operation.   |
| (3)  | Rhaid darparu cyfarpar, cyfleusterau a threfniadau ar gyfer dihalogi, glanhau, diheintio a, phan fo angen, sterileiddio teclynnau gwaith, offerynnau ac eitemau eraill. Rhaid gwahanu'r ddarpariaeth hon oddi wrth yr holl weithfannau, a rhaid iddi adlewyrchu'r triniaethau a roddir yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd. | Equipment, facilities and arrangements must be provided for the decontamination, cleaning, disinfecting and, where required, sterilisation of work tools, instruments and other items. This provision must be segregated from all workstations, and it must effect the procedures performed at the approved premises or vehicle. |
| (4)  | Rhaid defnyddio, cynnal a gwasanaethu'r holl gyfarpar a ddefnyddir at ddiben glanhau, diheintio neu sterileiddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a rhaid cael cofnodion ar ffurf dogfen i ddangos bod y profion ansawdd priodol wedi eu cynnal i ddilysu'r defnydd o'r cyfarpar hwnnw.                                  | All equipment used for the purpose of cleaning, disinfecting or sterilising must be used, maintained and serviced in accordance with the manufacturer's instructions and be accompanied by documented records to demonstrate that the appropriate quality tests have been carried out to validate the use of that equipment.     |
|      | <b>PARAGRAFF 6 – GWASTRAFF GAN GYNNWYS OFFER MINIOG</b>   | <b>PARAGRAPH 6 – WASTE INCLUDING SHARPS</b>  |
| (1)  | Rhaid gwneud darpariaeth addas ar gyfer casglu, storio a gwaredu gwastraff a sbwriel arall.   | Suitable provision must be made for the collection, storage and disposal of waste and other refuse.  |
| (2)  | Rhaid darparu nifer digonol o finiau gwastraff hawdd eu glanhau, nad ydynt yn cael eu gweithredu â llaw, yn y man gwaith triniaethau arbennig. Rhaid i'r biniau gwastraff fod wedi eu hadeiladu'n briodol a chael eu cadw mewn cyflwr da a glân.  | An adequate number of easy to clean, non-hand-operated waste bins must be provided in the special procedures work area. The waste bins must be appropriately constructed and kept in a sound and clean condition.  |
| (3)  | Rhaid i ddeiliad y dystysgrif ddarparu nifer addas o finiau offer miniog a sicrhau eu bod mewn lleoliad diogel yn agos i'r holl weithfannau.  | The certificate holder must provide a suitable number of sharps bins and ensure they are safely located in close proximity to all workstations.  |
| (4)  | Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod darpariaeth addas wedi ei gwneud ar gyfer gwaredu gwastraff domestig a gwastraff clinigol nad yw'n beryglus, ac ar gyfer eu storio ar wahân.  | The certificate holder must ensure that suitable provision has been made for the disposal and segregated storage of domestic waste and clinical, on-hazardous waste.   |
| (5)  | Rhaid marcio tarddle (enw a chyfeiriad y busnes) yr holl wastraff clinigol nad yw'n beryglus (bagiau gwastraff melyn a biniau offer miniog melyn) cyn eu gwaredu.   | All clinical, non-hazardous waste (yellow waste bags and sharps bins) must have their point of origin (name and address of business) marked on them prior to disposal.   |

|                   |   |  |
|-------------------|---|--|
| <p><b>(6)</b></p> | <p>Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod y gwastraff clinigol, nad yw'n beryglus (bagiau gwastraff melyn a biniau offer miniog melyn) yn cael ei gasglu'n rheolaidd gan gludwr gwastraff trwyddedig. Rhaid cadw cofnod o wastraff rheoledig a draddodir yn y fangre neu'r cerbyd a rhaid iddo fod ar gael i'w arolygu gan swyddog awdurdodedig.</p>   | <p>The certificate holder must ensure that the clinical, non-hazardous waste (yellow waste bags and sharps bins) is collected regularly by a licensed waste carrier. A record of consigned controlled waste must be retained at the premises or vehicle and available for inspection by an authorised officer.</p>   |
|                   | <p><b>DIFFINIADAU YN YR ATODLEN HON</b></p>   | <p><b>DEFINITIONS IN THIS SCHEDULE</b></p>   |
|                   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• ystyr “amodau trwyddedu mandadol” (“mandatory licensing conditions”) yw'r amodau y mae trwydded triniaeth arbennig yn ddarostyngedig iddynt;</li> <li>• ystyr “bin offer miniog” (“sharps bin”) yw cynhwysydd anhyblyg, arbenigol sy'n cydymffurfio â Chod CGE 20 01 99(1) ac sydd wedi ei gynllunio i waredu'n ddiogel offer miniog sy'n gysylltiedig â rhoi triniaethau arbennig;</li> <li>• ystyr “gweithfan” (“workstation”) yw'r rhan o'r man gwaith triniaethau arbennig sy'n cynnwys y canlynol—       <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) gwely, cadair neu gyffelyb, y mae cleient yn eistedd neu'n gorwedd arno neu arni i gael triniaeth arbennig a roddir gan ddeiliad trwydded,</li> <li>(b) cadair neu stôl y mae deiliad y drwydded yn eistedd arni i roi'r driniaeth arbennig (os yw'n gymwys), ac</li> <li>(c) arwyneb gwaith a ddefnyddir ar gyfer gosod a storio'r offerynnau a'r cynhyrchion a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded i roi'r driniaeth arbennig;</li> </ul> </li> <li>• ystyr “offer miniog” (“sharps”) yw gwrthrychau neu offerynnau sy'n gallu torri, crafu, pricio neu achosi anaf i'r croen ac mae'n cynnwys pob math o nodwydd a rasel untro;</li> <li>• ystyr “man gwaith triniaethau arbennig” (“special procedures work area”) yw ardal neu ystafell ddynodedig a ddefnyddir at ddiben rhoi triniaeth arbennig, ac o ran man gwaith triniaethau arbennig—       <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) rhaid iddo gynnwys o leiaf—           <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) 1 weithfan,</li> <li>(ii) 1 basn golchi dwylo,</li> <li>(iii) 1 bin gwastraff,</li> <li>(iv) 1 bin offer miniog (os yw'n gymwys), a</li> </ul> </li> <li>(b) caiff hefyd gynnwys cyfleusterau eraill a chyfarpar arall i gefnogi'r gwaith o roi'r driniaeth arbennig;</li> </ul> </li> <li>• ystyr “sicrwydd yswiriant” (“insurance cover”) yw polisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus dilys a ddyroddwyd gan yswiriwr awdurdodedig i yswirio'r ceisydd mewn perthynas â'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd;</li> <li>• mae i “swyddog awdurdodedig” (“authorised officer”) yr ystyr a roddir yn adran 83 o Ddeddf Lechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017;</li> <li>• mae i “trwydded triniaeth arbennig” (“special procedure licence”) yr ystyr a roddir yn adran 59 o Ddeddf Lechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017;</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• “authorised insurer” (“yswiriwr awdurdodedig”), means in relation to a policy of insurance, a person</li> <li>• who may carry on in the United Kingdom the business of effecting or carrying out contracts of insurance of the sort provided under the policy of insurance;</li> <li>• “authorised officer” (“swyddog awdurdodedig”) has the meaning given in section 83 of the Public Health (Wales) Act 2017;</li> <li>• “insurance cover” (“sicrwydd yswiriant”) means a valid public liability policy of insurance issued by an authorised insurer to insure the applicant in relation to the approved premises or vehicle;</li> <li>• “mandatory licensing conditions” (“amodau trwyddedu mandadol”) means the conditions to which a special procedure licence is subject to;</li> <li>• “sharps” (“offer miniog”) means objects or instruments which are able to cut, graze, puncture or cause injury to the skin and includes all types of needles and single use razors;</li> <li>• “sharps bin” (“bin offer miniog”) means a rigid, specialised container that complies with the EWC Code 20 01 99(1) designed to safely dispose of sharps associated with the performance of special procedures;</li> <li>• “special procedure licence” (“trwydded triniaeth arbennig”) has the meaning given in section 59 of the Public Health (Wales) Act 2017;</li> <li>• “special procedures work area” (“man gwaith triniaethau arbennig”) means a designated area or room used for the purpose of performing a special procedure which—       <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) must include at least—           <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) 1 workstation,</li> <li>(ii) 1 wash hand basin,</li> <li>(iii) 1 waste bin,</li> <li>(iv) 1 sharps bin (if applicable), and</li> </ul> </li> <li>(b) may also include other facilities and equipment to support the performance of the special procedure;</li> </ul> </li> <li>• “workstation” (“gweithfan”) means the part of the special procedures work area which contains—       <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) a bed, chair or similar, on which a client sits or lies on to undergo a special procedure performed by a licence holder,</li> <li>(b) a chair or stool which the licence holder sits on to perform the special procedure (if applicable), and</li> </ul> </li> <li>• (c) a work surface that is used for the placement and storage of the instruments and products used</li> </ul> |

|  |   |
|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>ystyr “yswiriwr awdurdodedig” (“authorised insurer”), mewn perthynas â pholisi yswiriant, yw person a gaiff gynnal yn y Deyrnas Unedig y busnes o roi effaith i gontractau yswiriant, neu o gyflawni contractau yswiriant, o’r math a ddarperir o dan y polisi yswiriant.</li> </ul> <p><sup>(1)</sup> Cod chwe digid yw Cod Catalog Gwastraff Ewropeaidd (“CGE”) a ddefnyddir i nodi gwastraff (gwastraff peryglus a gwastraff nad yw’n beryglus) fel y’i rhestrir yn y Catalog Gwastraff Ewropeaidd. Mae Cod CGE yn nodi (ymhlith pethau eraill) y rheolaethau sy’n gymwys i symud a rheoli’r gwastraff. Mae Cod CGE 20 01 99 yn ymwneud â gwastraff clinigol heintus a pheryglus fel y nodir ar dudalen 47, paragraff 4.99 o Femorandwm Technegol Iechyd Cymru. Gweler <a href="https://nwssp.nhs.wales/ourservices/specialist-estates-services/specialist-estates-services-documents/whtms-library/whtm-07-01-safe-management-of-healthcare-waste-pdf/">https://nwssp.nhs.wales/ourservices/specialist-estates-services/specialist-estates-services-documents/whtms-library/whtm-07-01-safe-management-of-healthcare-waste-pdf/</a> (ar gael yn Saesneg yn unig).</p> | <p>by the licence holder to perform the special procedure.</p> <p><sup>(1)</sup> A European Waste Catalogue (“EWC”) Code is a six-digit code used to identify waste (hazardous and non hazardous) as listed in the European Waste Catalogue. An EWC Code (amongst other things) identifies the controls that apply to the movement and management of the waste. EWC Code 20 01 99 relates to hazardous, infectious clinical waste as set out on page 47, paragraph 4.99 of the Welsh Health Technical Memorandum. See <a href="https://nwssp.nhs.wales/ourservices/specialist-estates-services/specialist-estates-services-documents/whtms-library/whtm-07-01-safe-management-of-healthcare-waste-pdf/">https://nwssp.nhs.wales/ourservices/specialist-estates-services/specialist-estates-services-documents/whtms-library/whtm-07-01-safe-management-of-healthcare-waste-pdf/</a></p> |
|--|---|